# RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd yn y Rhithiol ddydd Llun, 24 Ionawr 2022

**Presennol**: Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd), Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd), Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Bryan Owen, Gary Pritchard, Alun Roberts

Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol)

**Aelodau Portffolio**

Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu'r Economi), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid), Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau), G. Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol), Ieuan Williams (Aelod Portffolio Trawsnewid a'r Gymraeg), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid)

**Wrth Law:** Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro dros dro, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai), Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio ac Economaidd), Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd dros dro, Rheolwr Gwasanaeth (Strategaeth Tai, Comisiynu a Pholisi), Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad, Rheolwr Sgriwtini (AGD), Swyddog Pwyllgor (ATH)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Richard Owain Jones a Nicola Roberts

**Hefyd yn Bresennol**: Trwy wahoddiad ar gyfer yr eitemau ar y Gyllideb: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Ll. Hughes, MBE, Eric Jones, Robert Ll. Jones, Dafydd Roberts (Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid)

(9:30 a.m. i 11:20 a.m.)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **1 Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| | Bu i'r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan diddordeb personol ond nid un a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 6 ar yr agenda gan ei fod yn gwirfoddoli gyda'r cynllun Bwyd Da Môn y cyfeirir ato yn yr adroddiad o dan eitem 6. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Ar sail yr uchod [h.y. cyngor a roddwyd], penderfynwyd cymeradwyo gweddill y |

| | |
|---|---|
| | cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2021. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Gosod Cyllideb Refeniw 2022/23** |
| PENDERFYNIAD | Wedi ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig ac ar lafar yn ystod y cyfarfod, roedd y Pwyllgor yn croesawu'r cyfle i fuddsoddi mewn gwasanaethau yn sgil y setliad ariannol ond yn cydnabod ar yr un pryd bod risgiau ac ansicrwydd o hyd wrth symud ymlaen ac felly bod angen sicrhau lefel ddarbodus o adnoddau wrth gefn. Penderfynwyd cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad fel ymateb ffurfiol gan y Pwyllgor Sgriwtini i'r gyllideb refeniw ddrafft arfaethedig ar gyfer 2022/23 ac argymell y canlynol i'r Pwyllgor Gwaith–<br><br>• Cyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2022/23 o £158.365m<br>• Cynnydd arfaethedig o 2% yn y Dreth Gyngor, a fydd yn golygu bod y gost i eiddo Band D yn £1,367.46<br>• Y dylai'r Pwyllgor Gwaith ofyn am farn y cyhoedd ar y gyllideb arfaethedig gychwynnol a'r cynnydd yn y dreth Gyngor ar gyfer 2022/23. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Gosod Cyllideb Gyfalaf 2022/23** |
| PENDERFYNIAD | Wedi ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar yn ystod y cyfarfod penderfynwyd argymell y Gyllideb Gyfalaf ddrafft arfaethedig ar gyfer 2022/23 i'r Pwyllgor Gwaith fel y'i cyflwynwyd. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Panel Sgriwtini Cyllid - Diweddariad ar Gynnydd** |
| PENDERFYNIAD | Bu i'r Pwyllgor nodi argymhellion y Panel a diolch i'r Cynghorydd Dafydd Roberts am yr adborth. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Strategaeth Dai Leol 2022-27** |
| PENDERFYNIAD | Wedi ystyried y dogfennau a gyflwynwyd a'r ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd, |

| | |
|---|---|
| | penderfynwyd argymell cymeradwyo Strategaeth Dai 2022-27 i'r Pwyllgor Gwaith. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Blaen Raglen Waith** |
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd –<br>• Cytuno'r fersiwn cyfredol o'r flaenraglen waith ar gyfer 2021/22<br>• Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaenraglen waith. |